# PRIFYSGOL ABERTAWE

# RHYDDID I LEFARU – CÔD YMARFER

## Egwyddorion

1. Mae gan Brifysgol Abertawe (a elwir o hyn ymlaen yn "y Brifysgol") egwyddor sylfaenol y dylai fod rhyddid i lefaru yn unol â'r gyfraith ar ei heiddo ac yn ei gweithgareddau. Atgyfnerthir yr egwyddor hon gan Ddeddf Addysg (Rhif 2) 1986 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r Brifysgol gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau y caiff rhyddid i lefaru yn unol â'r gyfraith ei ddiogelu ar gyfer ei haelodau (sy'n cynnwys ei myfyrwyr, ei staff, aelodau ei Chyngor ac aelodau'r Llys) ac i siaradwyr sy'n ymweld â hi. Mae'r un Ddeddf yn gosod? dyletswydd ar y Brifysgol i gyhoeddi Côd Ymarfer sy'n amlinellu'r gweithdrefnau a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan y sawl sy'n trefnu cyfarfod neu weithgareddau eraill neu'n mynd iddynt. Er y bydd darpariaethau manwl y Côd hwn yn berthnasol i weithgareddau a drefnir a/neu ffurfiol yn bennaf, dylid deall y bwriedir i'r egwyddorion a fynegir yn y Côd hwn ddiogelu'r rhyddid i lefaru a'r rhyddid i ymgysylltu yn ystod gweithgareddau cymdeithasol, preifat a hamdden.

## Awdurdod ac Awdurdodaeth

2. Bwriedir y Côd Ymarfer hwn i ddiogelu pob ffurf gyfreithiol ar ryddid i lefaru a chyfathrebu ym Mhrifysgol Abertawe.

3. Cyhoeddir y Côd Ymarfer hwn – gan y Cyngor fel corff llywodraethu'r Brifysgol a chyda'i awdurdod.

4. Bydd y Côd Ymarfer hwn yn berthnasol i bob aelod[1], siaradwr gwadd a phob ymwelydd arall â'r Brifysgol ar bob un o'r safleoedd, boed dan ei pherchnogaeth neu a reolir ganddi, gan gynnwys safle Undeb y Myfyrwyr, a bydd yn cynnwys pob ffurf ar gyfathrebu a mynegiant, beth bynnag yw'r? cyfrwng a ddefnyddir.

5. Y Cofrestrydd[2] fydd yn gyfrifol am weithrediad cyffredinol y Côd hwn a bydd ganddo'r awdurdod i ddirprwyo rhai o'r camau sy'n ofynnol gan y Cofrestrydd neu bob un ohonynt i staff priodol o dan y Côd Ymarfer hwn.

6. Bydd unrhyw achos lle torrir y Côd Ymarfer hwn ac unrhyw ymddygiad neu gamau gweithredu sy'n peryglu ymarfer cyfreithiol y rhyddid i lefaru yn cael ei adrodd wrth y Cofrestrydd a gallai arwain at gamau disgyblu yn erbyn yr unigolyn dan sylw. Os bydd unrhyw gamau tebyg gan aelodau yn cynnwys cyhuddiadau o drosedd a allai fod yn groes i'r gyfraith, bydd Prifysgol Abertawe'n rhoi cymorth i'r Heddlu gydag unrhyw gamau troseddol diweddarach.

7. Dylid anfon unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad y Cofrestrydd mewn perthynas â'r Côd Ymarfer hwn at Gadeirydd y Cyngor.

---

[1] – Diffinnir aelodau ar sail Ordinhad y Brifysgol.

[2] – Yn ôl y Côd hwn, mae'r term "Cofrestrydd" yn cyfeirio ar yr uwch-swyddog gweithredol sy'n gweithredu fel Pennaeth adrannau gweinyddol a gwasanaethu'r Brifysgol.

8. Dylai aelodau'r Brifysgol nodi y gallai'r farn a fynegir fod yn destun camau disgyblu os yw'r farn honno'n cyfrif fel aflonyddu rhywiol, hiliol neu arall[3] neu os ydynt yn sarhau neu'n bychanu unigolion ar sail oedran, rhyw, hunaniaeth rywedd, tueddfryd rhywiol, hil, cefndir cenedligrwydd neu ethnig, crefydd neu anabledd, neu os ydynt yn cyfrif fel ymddygiad amharchus neu anaddas.

9. Pan fydd ansicrwydd o ran dehongli unrhyw ddarpariaeth yn y Côd hwn, bydd rhagdybiaeth y bydd yn cael ei ddehongli o blaid yr unigolyn neu'r corff sy'n dymuno ymarfer neu ddiogelu ei hawl i ryddid i lefaru.

***Gweithgareddau Ffurfiol***

10. Cynhelir unrhyw gyfarfod neu weithgaredd ffurfiol arall a nodir yn y Côd Ymarfer hwn ('cyfarfod dynodedig') o dan y telerau, yr amodau a'r gweithdrefnau a amlinellir yn y Côd hwn.

11. Golyga 'cyfarfod dynodedig' unrhyw gyfarfod neu weithgaredd lle y bydd unrhyw ffactor (megis enw da'r siaradwr neu'r pwnc dan sylw) yn ei gwneud hi'n debygol y gallai siaradwr (neu unrhyw fynychwr dilys) gael ei rwystro rhag mynd i mewn i'r lleoliad neu ei adael mewn ffordd sy'n fygythiad i'w ddiogelwch, neu pan fydd siaradwr (neu unrhyw fynychwr dilys) yn cael ei atal rhag cymryd rhan yn y cyfarfod neu'r gweithgaredd.

12. Cyfrifoldeb trefnydd cyfarfod yw nodi os yw'r gweithgaredd a gynllunnir yn cydymffurfio â'r diffiniad uchod o 'gyfarfod dynodedig'. Pan fydd ansicrwydd am gategori cyfarfod neu weithgaredd, bydd yr unigolyn sy'n dymuno cynnal y cyfarfod neu'r gweithgaredd yn ymgynghori â'r Cofrestrydd. Bydd y Cofrestrydd yn penderfynu yn ôl ei ddisgresiwn os yw cyfarfod neu weithgaredd yn gyfarfod dynodedig.

13. Os nad yw unrhyw unigolyn sy'n dymuno cynnal cyfarfod dynodedig yn hysbysu'r Cofrestrydd y cynhelir digwyddiad o'r fath, bydd yr unigolyn hwnnw'n torri'r Côd hwn a gallai fod yn destun camau disgyblu'r Brifysgol a/neu gamau priodol eraill.

14. Yn gyffredinol, bydd unigolion sy'n dymuno cynnal cyfarfod dynodedig yn hysbysu'r Cofrestrydd o'r cais yn ysgrifenedig bythefnos cyn dyddiad arfaethedig y digwyddiad hwnnw fan bellaf?.

   a) Pan fydd myfyriwr neu unigolyn sy'n gweithredu ar ran sefydliad i fyfyrwyr yn cyflwyno cais o'r fath gerbron y Cofrestrydd, bydd, ar yr un pryd, yn cyflwyno copi o'r cais i Lywydd Undeb y Myfyrwyr.

   b) Pan wneir cais o'r fath gan aelod o staff neu gyflogai sy'n dymuno, fel rhan o'r cwricwlwm, wahodd darlithydd gwadd o'r tu hwnt i'r Brifysgol, i gynnal seminar neu roi cyflwyniad o frath arall, rhaid iddo ymgynghori'n gyntaf â'i Bennaeth Ysgol, a fydd yn hysbysu'r Cofrestrydd.

   c) Pan wneir cais o'r fath gan aelod o staff neu gyflogai, bydd y Cofrestrydd yn hysbysu Llywydd Undeb y Myfyrwyr os yw'n ei ystyried yn briodol.

---

[3] – Mewn achosion o aflonyddu, bydd polisi a gweithdrefnau gwrth-aflonyddu Urddas, Gweithio ac Astudio'r Brifysgol yn berthnasol.

15. Rhaid i unigolion sy'n dymuno cynnal cyfarfod gynnwys yn eu ceisiadau i'r Cofrestrydd yr wybodaeth ganlynol:

a) manylion y trefniadau stiwardio arfaethedig ar gyfer y cyfarfod dynodedig, ac enwau, statws a chyfeiriadau'r stiwardiaid;

b) enw a chyfeiriad y Cadeirydd, a manylion cyswllt perthnasol eraill;

c) asesiad risg a gwblhawyd[4] sy'n amlinellu'r mesurau a roddwyd ar waith i leihau unrhyw aflonyddwch posib.

16. Fel arfer, bydd y Cofrestrydd yn ymateb i gais i gynnal cyfarfod dynodedig o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais. Ni chaiff unrhyw gyfarfod dynodedig ei hysbysebu na'i gynnal nes y rhoddir caniatâd gan y Cofrestrydd.

17. Ni chedwir ystafell ar gyfer cyfarfod dynodedig nes y derbynnir caniatâd gan y Cofrestrydd a'i drosglwyddo i'r asiantaeth cadw ystafell berthnasol.

18. Cedwir unrhyw ystafell er mwyn cynnal cyfarfod dynodedig ar safle a reolir gan y Brifysgol neu gan Undeb y Myfyrwyr drwy'r asiantaeth briodol. Ar gyfer ystafelloedd a reolir yn ganolog, gwneir hyn drwy'r swyddog a ddynodwyd gan y Cyfarwyddwr Ystadau, ar gyfer ystafelloedd a reolir gan ysgol, drwy Bennaeth yr Ysgol, a thrwy Reolwr yr Undeb ar gyfer ystafelloedd Undeb y Myfyrwyr. Ni chaniateir cadw unrhyw ystafell ar gyfer cyfarfod dynodedig nes y bydd yr asiantaeth briodol yn derbyn caniatâd ysgrifenedig gan y Cofrestrydd.

19. Bydd gan y Cofrestrydd y disgresiwn i orfodi unrhyw amodau y mae'n eu hystyried yn briodol, a bydd yn nodi unrhyw gostau i'w codi mewn perthynas ag unrhyw gostau ychwanegol. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd unrhyw gostau trefniadau diogelwch, porthorion a glanhau ychwanegol neu sy'n deillio o ganlyniad i ddifrod a achosir.

20. Caiff mynediad i gyfarfodydd dynodedig ei gyfyngu yn ôl cyfarwyddyd neu â chytundeb y Cofrestrydd yn unig. Os yw'r ymgeisydd yn dymuno cyfyngu mynediad, dylid rhoi manylion am hyn yn y cais cychwynnol i'r Cofrestrydd, gan gynnwys manylion ynghylch sut y bwriedir cyfyngu ar y mynediad hwnnw. Pan fydd angen rheoli mynediad, gellir ei wneud drwy gyhoeddi tocynnau, drwy wahoddiad, drwy aelodaeth, drwy ddangos cerdyn y Brifysgol neu gerdyn adnabod arall, neu drwy unrhyw ffordd arall y mae'r Cofrestrydd yn manylu arno neu'n cytuno iddo.

21. Heb gyfyngu ar yr hawl i brotestio'n heddychlon, ni fydd aelodau Prifysgol Abertawe'n rhwystro cyrraedd neu adael cyfarfod dynodedig, ac ni chaniateir iddynt helpu neu annog pobl eraill rhag achosi rhwystr o'i fath.

22. Mewn cyfarfodydd dynodedig, y Cadeirydd a'r ymgeisydd fydd yn gyfrifol, cyhyd â'i bo'n rhesymol ymarferol, am sicrhau bod y siaradwyr a'r sawl sy'n dod i'r digwyddiad yn cydymffurfio â'r gyfraith yn ogystal â'r côd hwn, ynghyd â rheoliadau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Brifysgol. Cyfrifoldeb y Cadeirydd fydd penderfynu a yw cyfarfod yn gallu mynd yn ei flaen neu a yw'n rhaid dod ag ef i ben.

23. Mewn cyfarfodydd dynodedig, disgwylir i siaradwyr a'r rhai sy'n bresennol gydymffurfio â dyfarniadau a cheisiadau'r Cadeirydd (a fydd yn cydymffurfio'n

---

[4] –- Mae templedi asesu risg ar gael gan Reolwr Cyfleusterau Ystadau, yr Adran Ystadau.

gyffredinol â Rheolau Trafodaeth y Brifysgol[5]). Gall ceisiadau o'r fath gynnwys ceisiadau i dynnu'n ôl o'r cyfarfod lle bydd unigolion yn tarfu arno neu os byddant yn anwybyddu dyfarniadau'r Cadeirydd mewn ffordd ddi-baid.

24. Yn sgîl amgylchiadau sy'n newid neu ffactorau nad oeddent yn hysbys ar adeg y cais, gall y Cofrestrydd addasu'r amodau a osodir neu ganslo cyfarfod.

***Gweithgareddau Anffurfiol***

25. Tra bod prif ddarpariaethau'r Côd hwn (adrannau 10 i 24) yn berthnasol i weithgareddau a drefnir a ffurfiol, dylid deall yr egwyddorion a amlinellwyd yn adran 1, a'r awdurdod a'r awdurdodaeth a amlinellwyd yn adrannau 2 i 9 y Côd hwn, sy'n berthnasol i ddiogelu'r rhyddid i lefaru yn ystod gweithgareddau cymdeithasol, preifat neu hamdden ar unrhyw safle'r Brifysgol hefyd.

26. Byddai rhwystro neu darfu ar unrhyw drafodaeth anffurfiol ar unrhyw safle'r Brifysgol i aflonyddu, i achosi difrod i eiddo neu'i ddwyn o ganlyniad i'r credoau neu'r farn a fynegir gan y cyfranogwyr a chyda'r nod o darfu ar drafodaeth, yn mynd yn groes i'r Côd hwn.

[5] – Mae Rheol Trafodaeth y Brifysgol wedi'i chynnwys yn *nogfen Rheoliadau ar gyfer Ymddygiad mewn Cyfarfodydd* y Brifysgol ar gael ar y mewnrwyd.